## Gweld Iesu

Hwn ydyw'r dydd y cododd Crist
Gan ddryllio pyrth y bedd;
O! cyfod, f'enaid, na fydd drist
I edrych ar ei wedd.

Cyfodi wnaeth i'n cyfiawnhau,
Boddlonodd ddeddf y Nef;
Er maint ein pla, cawn lawenhau,
Mae'n bywyd ynddo Ef.

Gorchfygodd angau trwy ei nerth,
Ysbeiliodd uffern gref,
Ac annherfynol ydyw'r gwerth
Gaed yn ei angau Ef.

Esgynnodd mewn gogoniant llawn
Goruwch y nefoedd fry,
Ac yno mae, ar sail ei Iawn,
Yn eiriol drosom ni.

Os gofyn pur gyfiawnder Nef
Am fywyd euog ddyn,
Fe ddengys Iesu drosto ef
Ei werthfawr waed ei hun.

Pob gallu llawn trwy'r byd a'r nef
Sydd yn ei law yn awr.
Ni rwystra gallu uffern gref
Ddibenion Iesu mawr.

***Robert Owen***